CÔD YMARFER
HAWL A HAEDDIANT

(Elfen 1.1 o Rhan A y CLG Cynradd)

Prif Swyddfa : Cwmni CYNNAL · Plas Llanwnda · Stryd y Castell · CAERNARFON · Gwynedd · LL55 1SH
Canolfan Dechnoleg Maesincla: Cwmni CYNNAL · Canolfan Dechnoleg · Maesincla · CAERNARFON · Gwynedd · LL55 1RS
Uned Dechnoleg Llangefni : Cwmni CYNNAL · Stryd y Bont · Llangefni · Ynys Môn · LL77 7HL

YMWELIADAU HAWL A HAEDDIANT
CÔD YMARFER

(Elfen 1.1 o Rhan A y CLG Cynradd)

TREFN	. Nifer penodol o ymweliadau yn ystod y flwyddyn gan yr ymgynghorydd cynradd neu ymgynghorwyr pwnc (yn ddibynnol ar faint yr ysgol).
AGENDA	· Yr ysgol sy'n penderfynu ar yr agenda.* · Blaenoriaethau cyffredinol a phynciol wedi eu rhestru ar gefn y daflen briffio i gynorthwyo'r ysgol wrth lunio agenda. · Argymhellion ymweliadau blaenorol i gael eu hystyried. * *Gellir defnyddio'r ymweliad ar gyfer HMS ysgol ganolog os derbynnir briff llawn gan yr ysgol o* ***leiaf 6 wythnos*** *o flaen llaw.* ***Noder bod ½ diwrnod o hyfforddiant yn cyfateb i 1 diwrnod o ymweliad.***
TREFNIADAETH	· Swyddfa CYNNAL sy'n trefnu'r ymweliad gyda'r Pennaeth. · Ceisiadau am ymweliadau i'w derbyn ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyda'r hyblygrwydd i gyflwyno ceisiadau ychwanegol ar ddechrau pob tymor. · Anfonir ffurflenni briffio i'r ysgolion yn dymhorol. · Cofnodir yr ymweliadau ar safwe CYNNAL. · Taflenni briffio manwl i'w cyflwyno 6 wythnos o flaen llaw.
YR YMWELIAD	· Ar gychwyn yr ymweliad dylai'r ymgynghorydd gadarnhau pwrpas yr ymweliad gyda'r pennaeth. · Cedwir cofnodion o'r ymweliadau a chyflwynir adroddiad llafar i'r Pennaeth cyn gadael yr ysgol.
ADRODDIAD AR YMWELIAD	· Dylai'r adroddiad ysgrifenedig: – grynhoi'r ymweliad – nodi argymhellion, gan gynnwys amserlen, os yn briodol – awgrymu ymweliad dilynol, os yn briodol – gael ei gosod ar safwe CYNNAL o fewn mis i'r ymweliad
DILYNIANT	· Cyfrifoldeb yr ysgol yw monitro dilyniant i'r ymweliad. · Cyfrifoldeb yr ymgynghorydd yw gwireddu unrhyw addewidion a wnaethpwyd ganddi/ganddo o fewn yr amserlen briodol. · Os yw'r dilyniant yn cynnwys ail ymweliad gellir cytuno ar y trefniadau ar ddiwedd yr ymweliad cyntaf ond er hynny bydd angen i'r ysgol gwblhau'r ddogfennaeth arferol.
PWYNTIAU YCHWANEGOL	· Y nod yw sicrhau bod ymweliadau hawl a haeddiant yn cyfrannu at weithrediad Cynllun Datblygu Ysgol ac yn ymgorffori elfen o hunan arfarnu. · Mae angen sicrhau hyblygrwydd oherwydd yr amrywiaeth sylweddol iawn yn natur yr ymweliadau.